**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Dydd Mercher 17 Mawrth 2021, 12.15-13.15
Wednesday 17 March 2021, 12.15-13.15
Lleoliad: drwy Zoom
*Dr Dai Lloyd AS – Cadeirydd (DL), Tristan Humphreys (TH) - Ysgrifennydd / Coeliac UK, Claire Constantinou (CC), Ian Severn (IS), Dr Jill Swift (JS), Dr Ieuan H Davies (IHD), Alison Jones (AJ), Wyne Lewis (WS) Sian EVans (SE)*.

| Eitem |
| --- |
| Ymddiheuriadau:<br><br>Graham Phillips, Dr Richard Cousins, Dr Geraint Preest, Rebecca Bowen, |
| Cofnodion y cyfarfod diwethaf<br><br>a. Newidiadau a chymeradwyo'r cofnodion<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion heb eu newid<br><br>b. Materion sy'n codi<br><br>Mae'r Grŵp wedi cael ateb i'w lythyr (01/10/20) at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Mae'r llythyr yn gefnogol i'r llwybr clinigol posibl ac yn nodi y byddai swyddogion yn 'hapus i gwrdd â chlinigwyr a chynrychiolwyr Coeliac UK'.<br><br>Holodd AJ am ffurf bosibl y llwybr hwn ee pa mor gyfannol y byddai? A fyddai'n cynnwys y cyfnod cyn cael diagnosis, y diagnosis a'r cyfnod o reoli'r cyflwr? Esboniodd TH ei fod o'n credu bod hyn yn gwbl agored i'w drafod ond bod rhai enghreifftiau da fel gwaith y Rhaglen Moderneiddio Llwybrau Cleifion yn yr Alban. Roedd yn system hollgynhwysol ac mae wedi'i dreialu mewn pedwar bwrdd iechyd gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n genedlaethol. Cytunodd IHD y byddai'n well defnyddio system hollgynhwysol. Soniodd hefyd am bwysigrwydd cael amserlen realistig a sicrhau bod plant yn rhan o hynny. Teimlwyd y dylai hefyd ymdrin â mynediad teg. |
| Effaith Covid<br><br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf, ar lafar: Rhestr aros ar gyfer endosgopi<br><br>Disgrifiodd JS effaith Covid-19 ar wasanaethau endosgopi drwy'r DU. Yn y bôn, yr un yw'r stori yn y pedair gwlad gan fod Covid wedi effeithio'n sylweddol ar amseroedd aros ar gyfer y gwasanaeth. Yng Nghymru yn benodol mae hyn wedi amharu ar y cynnydd derbyniol iawn a oedd i'w weld yn y maes hwn tan hynny.<br><br>Esboniodd JS y sefyllfa ddiweddaraf o ran gwasanaethau endosgopi i oedolion yng Nghaerdydd. Yn ystod y don gyntaf, canolbwyntiodd y gwasanaeth ar waith canser yn bennaf, a gohiriwyd gwaith cyffredinol, a gwith brys hyd yn oed. Mae'r sefyllfa wedi gwella rhywfaint. Mae'r amser y mae'n ei gymryd i weld cleifion, yn enwedig y rhai sy'n aros am endosgopi yn y rhan uchaf o'r llwybr gastroberfeddol, yn dal yn broblem gan ei fod yn cael ei ystyried yn driniaeth sy'n cynhyrchu aerosol. Ar ôl trin un claf, mae'n cymryd hanner awr i lanhau'r theatr a gweld y claf nesaf, felly mae gwasanaethau edosgopi'n dioddef mwy na gwasanaethau colonosgopi. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dwy ystafell ac yn trin cleifion bob yn ail a dim ond 60-70% o'r cleifion a welir fel arfer sy'n cael eu trin. Yng Nghaerdydd, mae'r holl gleifion |

canser yn awr yn cael eu gweld yn ogystal ag achosion brys, ac mae’r gwasanaeth hefyd yn ymdrin ag achosion cyffredin eto. Mae’r gwasanaeth yn cael ei gynnig ar benwythnosau’n awr ac mae timau’n dod i mewn o Gaerdydd. Mae ysbyty SPIRE hefyd yn gweld rhai cleifion fel rhan o gontract allanol. Mae pethau'n gwella ac mae'r arwyddion yn galonogol ond mae cryn effaith o hyd ar amseroedd aros, sy'n llawer, llawer hirach na'r hyn y byddem yn ei obeithio. Rhaid aros rhai misoedd am endosgopi arferol, ac os amheuir bod clefyd seliag ar gleifion, maent yn dueddol o gael eu cynnwys ar y rhestr achosion brys, yn enwedig os oes ganddynt symptomau. Mabwysiadwyd canllawiau BSG ar gyfer clefyd seliag ac mae'r gwasanaeth yn gweithio i'r rhain. Mae'n debyg iawn i’r canllawiau presennol ar gyfer plant - Os yw cleifion o dan 45 oed, ac os nad oes ganddynt unrhyw symptomau pryderus eraill cysylltiedig â chlefyd seliag a TTG sydd fwy na 10 gwaith yr hyn sy’n arferol (sef 100 yng Nghaerdydd), yna gallant gael HLA a'r EMAS fel sy'n cael ei wneud yn achos plant a dim biopsi o gwbl. Caiff cleifion sy’n dilyn y llwybr hwn eu gweld gan ddeietegydd i gael cyngor dietegol a byddant yn cael cynnig biopsi a her glwten yn nes ymlaen os dymunant.

Yna disgrifiodd IHD y sefyllfa ddiweddaraf o ran gwasanaethau plant. Nid yw pethau wedi newid yn sylweddol ers y cyfarfod diwethaf (07/12/20). Nid yw'n llawer gwaeth, nid yw'n llawer gwell. Mae'n eithaf anodd gweld pwy sy'n aros am endosgopi ar gyfer clefyd seilag a phwy sy'n aros am endosgopi am glefydau posibl eraill, ond rhwng IHD a Dr. Cosgrove yn Abertawe (sy'n gwneud y gwaith hwn pan gaiff glaf endosgopi i geisio cadarnhau a oes ganddo glefyd seliag) mae'n debyg bod tua 30 i 40 o blant yn aros. Mae rhai o'r rhain wedi bod yn aros am gryn amser ac, yn y cyfamser, mae'r gwasanaeth wedi dewis trin rhai fel pe bai ganddynt glefyd seliag, a'u rhoi ar her glwten chwech i wyth wythnos ymlaen llaw. Mae’n mynd i fod yn anodd iawn lleihau’r rhestr aros ar ôl y pandemig ac, ar hyn o bryd, tri gastroenterolegydd sy’n gweithio yn y maes hwn. Bydd hyn yn codi i 4 diolch i gyllid newydd gan y bwrdd iechyd ond mae adnoddau endosgopi yn dal yn brin.

Presgripsiynau am fwyd heb glwten

a. Y sefyllfa yng ngweddill y DU

Esboniodd TH ei fod wedi cymryd yr awenau fel arweinydd polisi presgripsiynau ar gyfer yr elusen ar hyd a lled y DU a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol. Nid oes fawr ddim wedi newid ers cyfarfod diwethaf y Grŵp (07/12/20). Mae nifer o Grwpiau Comisiynu Clinigol wedi uno a dim ond tua 135 ohonynt sydd yn Lloegr yn awr. Mae tua 60% o Grwpiau Comisiynu Clinigol yn dal i roi cymysgeddau bara a blawd ar bresgripsiwn ac mae eraill wedi cyfyngu ymhellach ar bresgripsiynau ond mae’r gwir ddarlun yn amrywio o’r naill Grŵp i’r llall. Ar hyn o bryd mae Grŵp Comisiynu Clinigol Swydd Northampton yn adolygu ei gynllun presgripsiynau dan arweiniad fferyllfa, sy’n cael ei ariannu gan GIG Lloegr ond sy’n cael ei weinyddu gan y Grŵp. Daeth y cyllid ar gyfer hwn i ben ym mis Medi ond, yn dilyn pryderon a godwyd gan Celiac UK ac eraill, cafodd ei ymestyn tan fis Mawrth yn amodol ar ymgynghoriad. Mae'r ymgynghoriad hwnnw wedi agor erbyn hyn ac mae'r cyllid wedi'i ymestyn ymhellach tan fis Mehefin i ystyried y canlyniadau. Bydd Celiac UK yn cyflwyno ymateb ar ran y gymuned yn Swydd Northampton a bydd yn annog aelodau i ddweud eu dweud hefyd. Ar wahân i hyn, yr unig ddatblygiad arall yw trafodaethau cychwynnol ynghylch y posibilrwydd o ddiwygio’r gwasanaeth iechyd yn Lloegr.

b. Y wybodaeth ddiweddaraf, ar lafar, am restr ACBS

Mae TH wedi siarad â chysylltiadau yng ngwledydd eraill y DU ac, ar hyn o bryd, nid oes proses weinyddol yng Ngogledd Iwerddon na'r Alban i gymeradwyo cynhyrchion newydd. Yn bwysicach efallai, roedd cysylltiadau masnachol yn pryderu nad oedd cynnyrch a oedd wedi’i ailfformiwleiddio yn cael eu cynnwys oherwydd hyn. Yn y bôn, mae rhestr Celiac UK o’r cynhyrchion sydd ar gael ar bresgripsiwn yn cael ei

| |
|---|
| defnyddio yn lle hen restr ACBS. Nid oedd yr elusen yn ymwybodol o hynny cynt. Yn dilyn trafodaethau, awgrymodd TH fod dymuniad i fabwysiadu system tymor hir mwy cynaliadwy y gellid ei defnyddio ym mhob un o'r gwledydd datganoledig. Cytunodd AJ a theimlodd fod hyn yn broblem gynyddol yng Nghymru. Awgrymwyd bod hyn yn rhywbeth y dylai unrhyw grŵp a sefydlir yn y dyfodol ei drafod.<br><br>Cam i'w gymryd: TH i ychwanegu hyd at agenda cyfarfod yn y dyfodol |
| Y wybodaeth ddiweddaraf gan Coeliac UK<br>a. Wythnos Codi Ymwybyddiaeth<br>Roedd yr Wythnos Codi Ymwybyddiaeth i fod i ganolbwyntio ar gael diagnosis i blant y llynedd ond gohiriwyd hyn oherwydd y pandemig. Y bwriad oedd cynnal yr Wythnos Codi Ymwybyddiaeth eleni ond, ar ôl siarad â'i Bwyllgor Cynghori ar Iechyd ac amryw o bartneriaid eraill, roedd Celiac UK yn teimlo nad oedd yn amser priodol i anfon pobl i gyfeiriad gofal sylfaenol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ehangach. Felly mae'r darn hwnnw o waith yn ymwneud â phlentyndod a diagnosis yn awr wedi'i wthio yn ôl i fis Medi. Bydd ffocws newydd i'r Wythnos Codi Ymwybyddiaeth. Gan weithio law yn llaw â'r chwaer sefydliadau eraill ledled y byd drwy Gymdeithas Cymdeithasau Seliag Ewrop (AOECS), bydd Celiac UK yn codi ymwybyddiaeth o glefyd seliag gan ddefnyddio'r hashnod #shinealightoncoeliac. Mae nifer o safleoedd a chymdeithasau seliag eraill yn defnyddio hwn. Bydd yr ymgyrch yn tynnu sylw at straeon bywyd go iawn ac astudiaethau achos, gyda negeseuon yn canolbwyntio ar symud o'r tywyllwch i'r goleuni wrth i gyfyngiadau covid gael eu llacio'n raddol dros yr haf. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd ag ymdrechion yr elusen i godi arian ym mis Mehefin. Dyddiad Wythnos Codi Ymwybyddiaeth yw 10-16 Mai<br>b. Cynlluniau ar gyfer Grwpiau Hollbleidiol Seneddol, Grwpiau Hollbleidiol a Grwpiau Trawsbleidiol<br>Hefyd, nododd TH gynlluniau i'r elusen sefydlu Grŵp Trawsbleidiol (yr Alban), Grŵp Hollbleidiol (Gogledd Iwerddon) a Grŵp Hollbleidiol Seneddol (San Steffan) y flwyddyn nesaf. |
| Dyfodol y Grŵp:<br>a. Adroddiad gwaddol<br>Cyflwynodd TH yr adroddiad drafft i'r Grŵp. Roedd y grŵp am newid y fformat a defnyddio penawdau mwy eglur a chytunodd TH i'w newid yn unol â hynny cyn ei gyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno.<br>b. Diolch<br>Diolchodd TH i'r grŵp am eu cyfraniadau rhagorol drwy'r tymor seneddol a dywedodd fod y Grŵp Trawsbleidiol yn cael ei ddefnyddio fel model ar gyfer y modd mae'r elusen yn ymgysylltu â'r rhai sy'n penderfynu ar bolisi ledled y DU. Yn benodol, roedd TH am ddiolch i DL am gadeirio'r Grŵp a bod yn hyrwyddwr dros y gymuned seliag yng Nghymru. Diolchodd DL i'r grŵp am eu hymdrechion gan ddweud ei fod yn falch o fod wedi gallu rhannu cyfraniadau mor werthfawr a gwaith mor ystyrlon.<br>Cam i'w gymryd: TH i newid yr adroddiad gwaddol a'i anfon i'r Swyddfa Gyflwyno ynghyd â chofnodion y cyfarfod |
| Unrhyw fater arall<br><br>Mae CC a chydweithwyr ar y rhestr fer ar gyfer y gwobrau diogelwch cleifion am eu fideo addysg am fwyd heb glwten o dan y categori ymgysylltu â chleifion. Maent wedi cynhyrchu a gwerthuso'r fideo ac yn awyddus i'w rhannu ag eraill i helpu i ddatblygu |

| |
|---|
| llwybr y claf. Llongyfarchodd TH y tîm gan ddweud ei fod yn falch o’r cyfle i rannu arfer da.<br><br>Cam i’w gymryd: CC i anfon y linc i’r fideo addysg at TH |

| **Cam i’w gymryd:** | **Aelod sy'n gyfrifol** |
|---|---|
| Ychwanegu ACBS at agenda cyfarfod o’r Grŵp yn y dyfodol | TH |
| Newid yr adroddiad gwaddol a’i anfon i’r Swyddfa Gyflwyno ynghyd â chofnodion y cyfarfod. | TH |
| Anfon y linc i’r fideo addysg at TH | CC |